# Y Pwyllgor Cyfle Cyfartal

**EOC(3)-13-08 (p.2) 16 Hydref 2008**

## Ymchwiliad y Pwyllgor i Wasanaethau Cynnal a Chadw'u Cartrefi a Gwasanaethau Addasiadau ar gyfer Pobl Hŷn

### Cefndir

Yn ei gyfarfod ar 2 Hydref 2008, cytunodd y Pwyllgor i gynnal ymchwiliad i gynnal a chadw'u cartrefi a gwasanaethau addasiadau ar gyfer pobl hŷn

### Cylch gorchwyl arfaethedig

Ymchwilio i effeithiolrwydd trefniadau Llywodraeth Cynulliad Cymru ar gyfer darparu gwasanaethau cynnal a chadw ac addasiadau i gartrefi pobl hŷn yng ngoleuni ymchwiliad blaenorol y cyn Bwyllgor Cyfiawnder Cymdeithasol ac Adfywio i dai ar gyfer pobl hŷn yng Nghymru yn 2004 ac adolygiad Llywodraeth Cynulliad Cymru o addasiadau yn 2005. Yn cynnwys:

I ba raddau y maent ar gael ac effeithiolrwydd gwasanaethau cynnal a chadw cartrefi ac addasiadau ar gyfer pobl hyn trwy Gymru a rhwng daliadaethau tai.

Amseroedd aros am Grantiau Cyfleusterau i Bobl Anabl a gosod yr addasiadau.

Cynnal a chadw gosodiadau a chyfarpar.

Effeithiolrwydd teclynnau rheoli perfformiad a ddefnyddir i asesu perfformiad asiantaethau i ddarparu gwasanaethau cynnal a chadw ac addasiadau i gartrefi.

Dyraniad adnoddau i wasanaethau cynnal a chadw ac addasiadau i gartrefi gan Lywodraeth y Cynulliad a'r asiantaethau sydd wedi cael y gwaith o'u darparu.

Effeithiolrwydd a chyfleustra i bobl hŷn y broses o gael addasiadau a gwasanaethau cynnal a chadw a thrwsio.

I ba raddau maent ar gael a pha mor hygyrch i bobl hŷn yw gwybodaeth a chyngor ar wasanaethau cynnal a chadw'u cartrefi, a gwasanaethau trwsio ac addasiadau

Derbyn tystiolaeth ar beth sy'n gweithio, beth nad yw'n gweithio, ac ar beth sydd angen ei wneud i alluogi i ddarpariaeth cynnal a chadw a gwasanaethau addasiadau i'w cartrefi fod ar gael ar gyfer pobl hŷn.

Argymhelliad

Bod y Pwyllgor yn cymeradwyo'r cylch gorchwyl arfaethedig, y llythyr ymgynghori drafft yn Atodiad A a'r rhestr o ymgyngoreion arfaethedig yn Atodiad B.

**Gwasanaeth y Pwyllgorau**

**Hydref 2008**